# Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

**2010 mccc 1**

## RHAN 2

GWARCHOD PLANT A GOFAL DYDD I BLANT

*Diogelwch gweithdrefnol*

### 37 Apelau

(1) Caiff ceisydd i gofrestru neu (yn ôl y digwydd) berson cofrestredig apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn unrhyw un neu unrhyw rai o'r camau canlynol gan Weinidogion Cymru o dan y Rhan hon—

(a) gwrthod cais i gofrestru;

(b) gosod amod newydd wrth gofrestru;

(c) amrywio neu dynnu i ffwrdd unrhyw amod a osodwyd wrth gofrestru;

(d) gwrthod cais i amrywio neu dynnu i ffwrdd unrhyw amod o'r fath;

(e) diddymu cofrestriad.

(2) Caiff y personau canlynol hefyd apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf—

(a) ceisydd i gofrestru neu (yn ôl y digwydd) berson cofrestredig ynglŷn â phenderfyniad a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan y Rhan hon o ddisgrifiad a ragnodwyd;

(b) person cofrestredig y gwnaed gorchymyn yn ei erbyn o dan adran 34;

(c) person cofrestredig y rhoddir hysbysiad iddo o dan adran 35.

(3) Pan fo apêl, rhaid i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf—

(a) naill ai gadarnhau bod y cam yn cael ei gymryd, bod y penderfyniad arall yn cael ei wneud, bod y gorchymyn yn cael ei wneud, neu bod yr hysbysiad yn cael ei roi (yn ôl y digwydd), neu

(b) cyfarwyddo nad yw'n cael effaith neu ei fod yn peidio â chael effaith.

(4) Oni fydd y Tribiwnlys Haen Gyntaf wedi cadarnhau bod cymryd cam a grybwyllir yn is-adran (1)(a) neu (e) neu wneud gorchymyn o dan adran 34 yn diddymu cofrestriad

person, caiff y Tribiwnlys hefyd wneud y naill neu'r llall o'r canlynol neu wneud y ddau ohonynt—

(a) gosod amodau ar gofrestriad y person o dan sylw;

(b) amrywio neu dynnu i ffwrdd unrhyw amod a osodwyd cyn hynny ar gofrestriad y person.